

Menter y Plu

Gwahoddiad i Fuddsoddi



Cyfle i fuddsoddi mewn cynllun i redeg Tafarn y Plu yn Llanystumdwy,
Eifionydd, fel menter gymunedol.

www.menteryplu.cymru

menteryplu@gmail.com



Cynnwys

Tudalen	
Crynodeb	3
Y nôd	4
Cyflwyniad	5
Canllawiau Cynnig Cyfranddaliadau	6-7
Goblygiadau Cyfreithiol	8-9
Y Pwyllgor	10

Crynodeb

Bu Tafarn y Plu yn dafarn ers tua 1816, bellach yr olaf o bum tafarn fu unwaith yn Llanystumdwy. Mae'n dŷ rhydd heb gysylltiad efo unrhyw fragdy, a bellach wedi bod ar werth ers pedair blynedd wrth i'r perchnogion presennol – sydd wedi bod wrth y llyw ers 2004 – chwilio am heriau newydd a chael symud yn barhaol i'w cartref yng Nghaernarfon. Os na ddaw prynwr i'r fei, neu os na fydd menter gymunedol yn fodlon cymryd yr awenau, y canlyniad mwya' tebygol ydy y bydd cais am newid defnydd yn cael ei wneud i adran gynllunio Cyngor Gwynedd. Byddai'r pentref mewn peryg o golli un arall eto fyth o'i chanolfannau cymdeithasol hollbwysig, ac mi fysai Llanystumdwy yn mynd yn fwyfwy di-enaid heb ganolfannau i'w bywyd cymdeithasol a masnachol.

Gan deimlo y bysai hyn yn gwneud cam â'r pentref, ei phobol, a'r cenhedlaethau sydd i ddod, daeth criw bach oddi fewn i'r gymuned at ei gilydd ym mis Gorffennaf 2018 i ffurfio Menter y Plu. Mae'r Fenter wedi ei chofrestru efo'r awdurdodau perthnasol fel corff cymwys i geisio prynu'r Plu fel eiddo rhydd-ddaliad a'i rhedeg er lles y gymuned.

Mae gobeithion y Fenter yn syml: "I gadw Tafarn y Plu fel tafarn a siop wledig draddodiadol, Gymraeg a Chymreig, i'w rhedeg gan Fenter y Plu er lles y gymuned ac er mwynhad i bawb sy'n dymuno dod drwy ei drysau."

Er mwyn bwrw 'mlaen efo'r cynllun hyn, mae'r Fenter yn gobeithio codi'r pres sydd ei angen drwy werthu cyfranddaliadau.

Mae'r Fenter yn deall yn iawn y bydd rhaid sefydlu'r busnes ar seiliau cadarn a chall, wedi eu llunio o gwmpas cynllun busnes realistig sy'n bosib ei gyflawni. Mae'r cynllun busnes wedi ei lunio o gwmpas y syniad y bydd y Fenter yn penodi rheolwr/wraig brofiadol i redeg y dafarn unwaith i'r pryniant gael ei gwblhau.

Gall cyfranddalwyr fuddsoddi lleiafswm o £100 ac uchafswm o £20,000.

Y nôd

Bydd prynu Tafarn y Plu fel Menter Gymunedol a'i rhedeg fel busnes drwy reolaeth a fydd ynghlwm i'r cyfansoddiad o ddarparu:

- llety i ymwelwyr yn y dyfodol
- cinio Sul, prydau ysgafn yn y dydd a bwydlen gynhwysfawr yn y nos
- oriau agor estynedig
- lle i gynnal digwyddiadau
- cynnig nosweithiau cymdeithasol i bobl leol o bob oed
- cynnig man cysurus a chroesawgar i grwpiau cymunedol lleol
- arddangos hanes yr ardal a'i diwylliant ar furiau'r dafarn
- Cefnogi busnesau lleol drwy ddarparu cynnyrch o Gymru
- Rydym eisiau sicrhau y bydd cymeriad unigryw a Chymreig y dafarn yn ddiogel at y dyfodol.

Mae Tafarn y Plu yn dafarn eiconig mewn sawl ystyr, efo hanes hir iddi. Mae'n parhau yn fusnes proffidiol, ac mae'r bygythiad i'w dyfodol yn haeddu cael y gymuned ynghyd i'w chadw yn agored ac i rwystro unrhyw ddatblygwr rhag ceisio newid ei defnydd. Mae Menter y Plu yn gwmni sy'n cynnig cynllun busnes realistig a allai greu adnodd fydd o fudd i'r gymuned ac i'r cyfranddalwyr.

Byddai'r fenter yn rhoi hwb i'r gymuned, efo'r dafarn yn datblygu'n ganolbwynt ac yn galon i amryw o weithgareddau. Peidiwch â cholli'r cyfle yma i gadw'r dafarn yn agored ac mewn dwylo lleol.

Hyd yn hyn

Ffurfiwyd pwyllgor i drafod y posibilrwydd o brynu'r dafarn fel menter cumunedol a gyda chymorth y Ganolfan Gydweithredol, cyngor gan dafarndai cymunedol eraill, rydym bellach wedi cofrestru fel Cymdeithas er budd y Gymuned (Community Benefit Society) fel Menter y Plu Cyf.

Ar ddydd Iau y 27ain o Fedi, cawsom ymgynghoriad cymunedol yn neuadd y pentref, Llanystumdwy. Daeth dros 50 o bobl ynghyd â Newyddion 9 S4C a BBC Radio Cymru i arddangos y digwyddiad.

Roedd sefydlu fel CBS yn galluogi i ni wneud ceisiadau am grantiau ac arian cyfatebol, codi arian a gwerthu cyfranddaliadau.

Bydd y cynllun cyfranddaliadau cymunedol yn galluogi pobl leol a thu hwnt i fuddsoddi a bod yn berchen ar y fenter yn ariannol a chymdeithasol.

Mae copi o'n cyfansoddiad ar gael ar y wefan. Yn wahanol i gymdeithas gydweithredol, pwrpas CBS ydy gwasanaethu'r gymdeithas a'u buddiannau ehangach.

Bydd y gymdeithas yn gobeithio rhoi cynnig ar yr adeilad a symud at y cam nesaf, sef i gadw'r drysau yn agored ac i gynnig tafarn gymunedol Gymreig llwyddiannus.

Bydd rhaid i unrhyw elw a wneir gan y CBS gael ei ddefnyddio er budd y gymuned.

Faint o arian sydd ei angen?

Mae Tafarn y Plu ar y farchnad am £195,000. Mi fydd hel cyfanswm o £200,000 fel cyfalaf er mwyn prynu'r dafarn (yr adeilad a'r busnes), ynghyd a costau cyfreithiol.

Rydym yn edrych i godi o leiaf £100k gan y cynnig cyfranddaliadau. Ar ôl ychydig wythnosau, rydym yn hyderus bydd hyn yn bosib o ystyried yr ymateb lleol a thu hwnt.

Bydd unrhyw gynnig ar yr adeilad gan y pwyllgor yn adlewyrchiad o ganlyniadau'r arolygon cyflwr. Gobeithio y bydd ein cynnig cyfranddaliadau yn ein galluogi i godi 100% o werth pryniant rhyddfrait yr adeilad.

Bydd y cynnig siâr ar agor am o'r 27ain o Fedi hyd nes y 30ain o Dachwedd.

Rydym hefyd wedi ystyried y gellid gwneud cytundeb gyda'r perchnogion y dafarn am berchnogaeth rhannol am gyfnod cyfyngedig pe bai hynny'n angenrheidiol.

Pe baem yn taro £ 200k, gallwn brynu'r Tafarn fel busnes hyfyw gan fod y busnes yn gwbl weithredol ar hyn o bryd. Yna bydd cais am grantiau i wneud y gwelliannau a'r ehangiadau angenrheidiol i'r busnes.

Os ydym yn cyrraedd y targed isaf, byddwn yn dal arian y cyfranddaliwr am gyfnod o amser, gan geisio ffurfiau eraill o godi'r cyfalaf sydd ei hangen.

Os byddwn yn cyrraedd yr uchafswm o £ 250k, gallwn brynu'r dafarn fel busnes sy'n mynd rhagddo a gwneud yr holl adnewyddiadau angenrheidiol.

Canllawia Cynnig Cyfranddaliad

Cost cyfranddaliad yw £1.

100 siâr ydy'r nifer lleiaf o gyfranddaliadau allwch chi eu prynu.

Bydd pob cyfranddalwr yn cael un bleidlais yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae rheol uchafswm buddsoddiad yn bodoli er mwyn diogelu'r Gymdeithas, mae'r rheol yma'n sicrhau nad ydi'r Gymdeithas yn or-ddibynol ar fuddsoddiadau mawr gan lond llaw o fuddsoddwyr.

Os yn prynu cyfranddaliadau fel grwp neu deulu mi fydd angen enwebu un person o'r grwp/teulu ar gyfer pleidlais yn y Cyfarfod Blynyddol ac i dderbyn ad-daliad treth (os byddwn yn gymwys).

Ni fydd gwerth eich cyfranddaliad yn fwy na'r hyn y byddwch wedi'i fuddsoddi. Bydd unrhyw swm â godir y tu hwnt i bris pryniant yr adeilad yn cael ei wario ar y gwaith adnewyddu, ffioedd proffesiynol a chostau gweithredol eraill.

Bydd y buddsoddiadau yn cael eu defnyddio i brynu'r adeilad a galluogi'r Gymdeithas Er Budd y Gymuned (CBS) i lunio ceisiadau grant i adnewyddu'r adeilad.

Bydd pob £1 y byddwn yn ei godi yn helpu sicrhau gobeithion Menter y Plu ac o bosib o gymorth i ni dderbyn arian cyfatebol gan fudiadau fel y Loteri Cenedlaethol.

Unwaith y bydd ein cynllun busnes yn barod a bod y cynnig cyfranddaliadau ar gau, bydd Menter y Plu Cyf. yn gwneud cais i HMRC i gadarnhau ein bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Buddsoddi (SEIS).

O dan y cynllun SEIS, gallai cyfranddalwyr fod â hawl i gael rhyddhad o 50% ar unrhyw swm y maent yn ei fuddsoddi, i'w gymryd oddi ar rhwymedigaeth treth incwm ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r flwyddyn flaenorol. I fod yn gymwys i gael SEIS, rhaid parhau a'r cyfranddaliad am dair blynedd a bydd rhaid talu am gyfranddaliadau llawn or cychwyn.

Os byddwn yn codi dros £150,000 trwy gyfranddaliadau, byddai'r cyfrannau dilynol yn gymwys ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Menter ar wahân (EIS), sy'n cynnig 30% o ostyngiad treth.

Y buddsoddiad mwyaf yw £20,000

Trwy fuddsoddi yn Menter y Plu Cyf. bydd buddsoddwyr yn cyfrannu at sicrhau na fydd tafarn gwledig arall yn cau eu drysau. Mae croeso i unrhyw un wirfoddoli i helpu efo gweithgareddau codi arian, adnewyddu'r adeilad neu redeg y dafarn.

Croesawn bawb, be bynnag fo'u sgiliau. Nod Menter y Plu yw dod â'r gymuned yn agosach at ei gilydd.

Beth sy'n digwydd os ydw i eisiau tynnu fy nghyfranddaliadau yn ôl?

Gobeithiwn y byddwch am ddal eich cyfranddaliadau am flynyddoedd lawer a'u trosglwyddo i anwyliaid, ond ar ôl isafswm o bum mlynedd, mae yna fecanwaith lle gall y Gymdeithas brynu'ch cyfranddaliadau yn ôl, yn amodol ar ychydig o amodau syml, ar gwerth wynebwerthoedd.

Rhyngddynt, yr unig beth y mae'n rhaid i chi ei wneud yw aros am eich taliadau llog. Mae'r amodau ar gyfer tynnu cyfalaf cyfranddaliadau wedi'u gosod allan yn llawn yn yr adran 'Goblygiadau Cyfreithiol' y ddogfen hon.

Fydda i'n cael llog ar fy gyfranddaliad?

Os bydd y busnes yn gwneud elw, bydd y pwyllgor yn penderfynu a fydd modd talu llog ar eich siâr.

Mae Cymdeithasau Er Budd y Gymuned (CBS) eraill yn defnyddio'r elw er mwyn rhoi gran- tiau bychain i grwpiau cymunedol lleol. Bydd Menter y Plu Cyf. yn gobeithio gwneud yr un fath.

Byddwn hefyd yn buddsoddi yn y busnes gan godi gwerth y buddsoddiad cymunedol ar gyfer y dyfodol.

Bydd Cynllun busnes y Gymdeithas ar gael ar-lein www.menteryplu.cymru diwedd Hydref.

Pryd fydd modd prynu cyfranddaliad?

Bydd cyfle i brynu cyfranddaliad o'r 27ain o Fedi hyd nes y 30ain o Dachwedd.

Bydd modd cynnig cyfnod cyfranddaliad arall yn y dyfodol. Fodd bynnag, gall y Gymdeithas ymestyn dyddiad cau'r cynnig cyfranddaliad i sicrhau fwy o fuddsoddiadau.

Pe byddai gormod o geisiadau am gyfranddaliadau yna byddai raid i'r Cyfarwyddwyr gau'r cynnig a chyntaf i'r felin geith falu.

A oes terfyn amser ar y cynnig rhannu cychwynnol?

Dyddiad cau yw Tachwedd 30.

Fodd bynnag, gall y Gymdeithas ymestyn y dyddiad cau i wneud y mwyaf o fuddsoddiad.

Os yw'r cynnig cyfranddaliad wedi'i or-danysgrifio, bydd y bwrdd yn cau'r cynnig cyfranddaliadau yn gynnar a bydd cyfrannau'n cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.

Beth sy'n digwydd os na allwn godi digon o arian i brynu'r dafarn?

Bydd pob ceiniog yn cael ei ad-dalu i chi. Fodd bynnag mae risg mewn unrhyw fuddsoddiad. Ni ddylech fuddsoddi mwy na'r hyn ydych chi'n barod i'w golli.

Nid yw eich buddsoddiad wedi'w ddiogelu gan Gynllun Gwasanaethau Ad-dalu Colledion (Financial Services Compensation Scheme).

Am fwy o wybodaeth gweler 'Goblygiadau Cyfreithiol'.

Goblygiadau Cyfreithiol

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i esbonio'n glir sut mae'r broses prynu cyfranddaliadau yn gweithio, a dyletswydd foesol i ddiogelu Menter y Plu Cyf. ar gyfer y gymuned a diogelu eich arian.

1) Cost cyfranddaliad yw £1.

100 cyfranddaliad yw'r nifer lleiaf o gyfranddaliadau allwch chi eu prynu a'r uchafswm yw £20,000.

2) Gallwch un ai dalu am y cyfranddaliad yn llawn wrth brynu, neu drefnu taliad misol am 10 mis drwy eich banc fel archeb sefydlog.

3) Mae'n rhaid i aelodau (buddsoddwyr) fod yn 16 oed, gall oedolyn brynu un ar ran plentyn fel anrheg.

4) Ni ellir trosglwyddo cyfranddaliad. Bydd modd trosglwyddo pe bai cyfranddaliwr yn marw neu yn mynd yn feth-dalwr. Gellir tynnu cyfranddaliad o'r fenter ar ôl y lleiafswm cyfnod buddsoddi, sef 5 mlynedd.

5) Ni all gwerth cyfranddaliad godi. Fodd bynnag, gall ei werth leihau pe bai'r fenter yn methu (mae hyn yn anhebygol iawn).

6) Bwriadwn dalu llog pan fydd elw yn caniatáu hynny. Bydd maint y llog yn ddibynnol ar elw'r fenter.

7) O ran eich atebolrwydd personol, rydych yn atebol am werth eich cyfranddaliad yn unig.

8) Ar ôl 5 mlynedd, gallwch dynnu eich cyfranddaliad o'r fenter ar yr amodau canlynol:

a) byddwch yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o dri mis;

b) bydd gwarged masnach (trading surpluses) neu gyfalaf cyfranddaliad newydd (fresh share capital) yn caniatáu hynny'n ariannol;

c) ni fydd y pwyllgor yn rhwystro'r cais am unrhyw reswm, fel y mae hawl cyfreithiol ganddynt i'w wneud (er enghraifft pe byddai llawer o bobl am dynnu cyfalaf cyfranddaliad o'r fenter ar yr un pryd). Mae gan y pwyllgor ddyletswydd i ystyried buddiannau hirdymor y Gymdeithas a'r ased cymunedol bob amser;

ch) ni fydd y cyfranddaliadau a dynnir mewn blwyddyn yn cyfateb i fwy na 10% o gyfanswm gwerth y cyfranddaliadau a ddyroddwyd yn y lle cyntaf

9) Bydd arian yn cael ei gadw mewn cyfrif banc Natwest o'r enw Menter y Plu Cyf. hyd nes bydd y Pwyllgor yn sicr bod digon yn y cyfrif i allu prynu'r adeilad. Os na ellir prynu, byddwch yn derbyn ad-daliad llawn o werth eich siâr.

- 10)** Unwaith bydd eich cyfranddaliad wedi'i ddefnyddio i brynu'r adeilad byddwch yn aelod llawn o'r Gymdeithas Er Budd y Gymuned (CBS), mae gan bob aelod o'r CBS hawl cyfartal ar bleidlais.
- 11)** Mae gan y Gymdeithas Er Budd y Gymuned (CBS) glo ar asedau 'Asset Lock', er mwyn diogelu'r dafarn yn y dyfodol. Pe bai'r dafarn yn methu yna bydd y cyfranddaliadau a'r dyledion eraill yn cael eu had-dalu. Ni all asedau sydd yn weddill gael eu talu i'r aelodau, mae'n rhaid i'r asedau gael eu talu i fenter gymunedol tebyg.
- 12)** Mae Menter y Plu Cyf bellach wedi ei gofrestru â'r FCA- Financial Conduct Authority. Fodd bynnag mae rheoliadau arbennig perthnasol i Gymdeithasau Er Budd y Gymuned, sef nid yw'r FSAS yn diogelu'r cynnig cyfranddaliad yma. Mae risg y gall fuddsoddwyr golli rhan / eu holl gyfranddaliad. Argymhellir i chi chwilio am gyngor annibynnol.
- 13)** Mae'r cynnig cyfranddaliad yn cau ar y 30ain o Dachwedd 2018.
- 14)** Ni allwn warantu na chaiff y dafarn ei werthu cyn i ni roi cynnig amdani. Mi allwn roi gynnig pryniant ar yr adeilad pan fydd gennym yr isafswm buddsoddiad cyfranddaliad. Bydd unrhyw gyfalaf o gyfranddaliadau y tu hwnt i'r pris pryniant yn cael ei ddefnyddio i dalu am waith adnewyddu, ffioedd proffesiynol a chostau gweithredol eraill.
- 15)** Ni chaniateir i gyfanswm gwerth y cyfranddaliadau fod yn fwy na £250,000.
- 16)** Mae copi o reolau a chyfansoddiad y Gymdeithas ar gael ar ein gwefan www.menteryplu.cymru. Pe byddwn yn llwyddiannus i gael cynnig ad-daliad treth EIS ar gyfer ein buddsoddwyr yna bydd yr wybodaeth yma'n ymddangos ar ein gwefan. Bydd unrhyw wybodaeth arall newydd hefyd ar ein gwefan.

Y Pwyllgor hyd yma

Mae pwyllgor sefydlu Menter y Plu yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl, pob un yn byw yn lleol a gyda chysylltiad ar plwyf. Bwriad ar ol y cyfarfod cyhoeddys yw i ddenu aelodau newydd gyda brwdfrydedd i gymeryd cyfrifoldebau i hybu'r fenter, ac i ddenu buddsoddiad.

Siôn Aled Jones

Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd a Trysorydd presennol

Brodor o Drefor yw Siôn sydd wedi ymgartrefu yn Llanystumdwy wrth briodi a merch o'r pentref. Mae ganddo ddwy ferch ifanc ac yn rheolwr archfarchnad yn Porthmadog. Mae'n aelod or Cyngor Cymuned, pwyllgor y fynwent a pwyllgor y neuadd yn Llanystumdwy. Gobeithion Siôn yw y bydd mentergarwch fel hyn yn gam yn nes at gadw busnesau ein cymunedau o fewn y Fro Gymreig, drwy gynnal swyddi, a cynnal gwasanaethau at ddibenion ein cymdeithas.

Tegid Jones

Cyfarwyddwr a swyddog gwefan

Yn wreiddiol o Sarn Mellteyrn, mae Tegid wedi byw yn Rhoslan ers 2011 a bellach yn Gynghorydd Cymuned ar gyfer y ward. Graddiodd mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Aberystwyth nôl yn 2006, ac mae'n gweithio yn y maes fel rhaglennydd yng Nghyngor Gwynedd. Mae ei enw yn cael ei floeddio yn y gan "Y Gnawas" gan Pwsi Meri Mew oherwydd y fo oedd yn chwarae'r allweddell i'r band. Mae'n hoff o dafarndai unigryw sy'n gwerthu cwrw lleol, a hoffai weld y Plu i barhau i fod yn hynny.

Owain Peredur Jones

Cyfarwyddwr

Magwyd Peredur yn Llŷn ac Eifionydd ac wedi cyfnod yn astudio yng Nghaerdydd, dychwelodd adref i'w gynefin. Bellach, mae'n byw yn Llanystumdwy ac yn gweithio i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru ac yn ffermio gyda'i rieni.

Elin Jones

Aelod o'r pwyllgor

Merch o Lanystumdwy yw Elin – fe'i magwyd yn y Crown lle roedd ei rhieni Wil a Dora yn rhedeg modurdy'r pentref cyn i'r teulu symud i Ros-lan gerllaw. Mynychodd Ysgol Lanystumdwy ac Ysgol Eifionydd, Porthmadog cyn dilyn cwrs arloesol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor i'w chymhwyso'i hun ar gyfer gwaith ysgrifenyddol. Bu'n gweithio yng Nghaerdydd a Gwynedd mewn swyddi gweinyddol ym myd addysg, radio a theledu, masnach a thwristiaeth am nifer o flynyddoedd.

Mae bellach yn Ysgrifenyddes yn Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri yng Nghaernarfon a hefyd yn gweithio'n rhan amser yn Nhafarn y Plu.

Mae Elin yn briod â Dewi ac yn fam i bedwar o feibion. Maent yn byw ac yn ffermio ym Mhant-glas. Elin sy'n gyfrifol am redeg ochr weinyddol ac ariannol y busnes teuluol. Mae hefyd yn aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Garndolbenmaen. Ysgrifennu creadigol yw un o'i diddordebau, ac yn arbennig felly ym myd y ddrama. Roedd yn un o'r rhai a fu'n gyfrifol am gwblhau drama olaf ei thad, Wil Sam.

Miriam Williams

Aelod o'r pwyllgor a swyddog marchnata

Un o Drefor yw Miriam hefyd, ond mae'n gweithio yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn Llanystumdwy ers bron i dair blynedd. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol cyn penderfynu mynd i fyw a gweithio yn Llanfair-ym-muallt am flwyddyn. Ers symud yn nol adref mae'n weithgar iawn gyda Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri, Menter Hendragarreg yn Nhrefor, ac amryw o brosiectau a swyddi eraill.

YMLAEN